**Cofnodion Cyfarfod Tasglu y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr – 14 Tachwedd 2019, Y Drenewydd**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Abi Lowe | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Andrew Lucas | Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| Clare Dinham | Buglife |
| Francis Gellatly | Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion |
| Gary Mitchell | Tyfu Fyny/Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| Gemma Barron | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Jan Miller | Yr Ymddiriedolaeth Natur |
| Kathleen Carroll | Llywodraeth Cymru |
| Keith Davies | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| Lucy Witter | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Mark Cleaver | Cyngor Sir Fynwy |
| Sam Lloyd-Williams | Llywodraeth Cymru |
| Simon Bilsborough | Llywodraeth Cymru |
| Sinead Lynch | Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn |
| Suvarna Punalekar | Prifysgol Aberystwyth |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

   Agorodd Kathleen Carroll y cyfarfod trwy groesawu'r aelodau. Gwnaed cyflwyniadau. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. **Rheoli Tir Awdurdodau Lleol ar gyfer Peillwyr: Adolygiad gan Gyngor Sir Ddinbych**

   Eglurodd Joel Walley fod Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd ei gyfrifoldebau o dan Adran 6 o'r Ddeddf Amgylcheddol o ddifrif. Roedd wedi cyflogi aelod staff ychwanegol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswydd. Roedd gan y Cyngor dargedau penodol wedi'u gosod ar gyfer madfallod tywod, grugieir duon, gwiberod, môr-wenoliaid bach a gwenyn. Nod ei bolisi ar ymylon ffyrdd oedd bod o fudd i fioamrywiaeth trwy dorri pob ffordd nad oedd yn briffordd (78% o'i rwydwaith) unwaith y flwyddyn, ar ôl 1 Awst, yn rhan o “Doriad Bioamrywiaeth”. Nododd Joel nifer o broblemau o ran rheoli glaswelltiroedd a oedd yn eiddo i'r Cyngor, a chynigiodd rai atebion. Tynnodd sylw at fanteision bod yn rhan o'r cynllun Caru Gwenyn a'r modd yr oedd y prosiect Tyfu Bywyd Gwyllt wedi bod yn offeryn ymgysylltu defnyddiol. Roedd y prosiect Tyfu Bywyd Gwyllt yn gydweithrediad

rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Canolfan Sgiliau'r Goedwig a'r grŵp *Life on the Verge*. O gyllideb gymedrol o £600, roedd wedi llwyddo i gynhyrchu dros 1,500 o blanhigion blodau gwyllt lleol a oedd yn iach, yn gryf ac o ansawdd uchel.

Anfonwyd cyflwyniad at aelodau'r Tasglu ar 13 Hydref 2019.

## 3. Cymru Fyw: Gwneud i Loerennau weithio ar gyfer Cymru

Rhoddodd Suvarna Punalekar (Prifysgol Aberystwyth) gyflwyniad ar y prosiect synhwyro o bell i ddosbarthu tir, Cymru Fyw. Nod Prosiect Cymru Fyw oedd cofnodi cyflwr a dynameg tirwedd Cymru, mewn amser real bron, yn hanesyddol ac i'r dyfodol, a hynny trwy integreiddio data arsylwi ar y ddaear, mesuriadau ategol o'r ddaear a modelau prosesau.

Roedd Cymru Fyw yn mapio coedwigoedd, brigdwf, cnydau a chynefinoedd lled-naturiol yn flynyddol. Gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol ar gyfer:

- Meintioli canlyniadau amgylcheddol
- Amcangyfrif amrywiaeth y dirwedd
- Amcangyfrif darniad cynefinoedd
- Cynnig cynlluniau ar gyfer cysylltiad rhwng cynefinoedd
- Amrywiaeth eang o ddadansoddiadau gofodol er mwyn deall y gydberthynas rhwng ymyraethau gan bobl (er enghraifft arferion ffermio, datblygu trefol, cynnal a chadw ffyrdd) ac amrywiaeth a dosbarthiad peillwyr
- Cefnogi cyrff rheoleiddio i nodi ardaloedd a oedd ag anghysondebau rhwng datganiadau a'r arwynebedd tir gwirioneddol (er y gallai hynny fod ychydig yn anodd)
- Nodi ardaloedd a oedd yn fwy tueddol o gael colledion bioamrywiol (er enghraifft yn dueddol o ddioddef o lifogydd)

Roedd yr ap symudol EarthTrack wedi cael ei ddatblygu i gasglu mesuriadau ategol o'r ddaear. Roedd gan yr ap gyfleuster i gasglu gwybodaeth am laswelltir llawn blodau, cynefinoedd llawn peillwyr, ymylon ffyrdd llawn blodau, gwenyn, gloÿnnod byw, cynefinoedd âr, a rhywogaethau goresgynnol.  Roedd Cymru Fyw yn croesawu trafodaeth ag eraill ar sut i gyflawni ei nodau i fesur priodweddau tirweddau ar gyfer peillwyr. Ymhlith y nodau yr oedd:

- nodi'r prif rywogaethau a chynefinoedd planhigion a oedd fwyaf perthnasol i beillwyr ac a oedd â'r potensial mwyaf i gael eu datrys, a hynny o ddata synhwyrydd lloeren cydraniad 3-25 m;
- pennu'r newidynnau amgylcheddol y gellid eu targedu i nodi'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, er enghraifft dechrau a gorffen blodeuo, rhywogaethau trech a'r cysylltiad rhwng cynefinoedd.
- nodi'r wybodaeth orau i'w chasglu, gan ddefnyddio EarthTrack, a sut y gellid defnyddio EarthTrack i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cronfeydd data a oedd yn gysylltiedig ag apiau a oedd yn bodoli eisoes, ac i'r gwrthwyneb.

Os oedd unrhyw un am drafod ymhellach â Cymru Fyw, gellid dod o hyd i'r manylion cyswllt yn y cyflwyniad.

Dolen i'r cyflwyniad: https://drive.google.com/open?id=1hjvqN9LhDaCeAQNSbYscNhDbsJBDlFSt

## 4. Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Rhoddodd Simon Bilsborough drosolwg, ac aeth ati i ateb cwestiynau ar yr ymgynghoriad, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (https://llyw.cymru/cynigion-diwygiedig-ar-gyfer-cefnogi-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit). Yn deillio o gyfarfod trafod ym mis Medi, roedd ymateb drafft wedi cael ei baratoi gan Gary Mitchell, Andrew Tuddenham (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Sinead Lynch a Francis Gellatly (anfonwyd drafft i'r Tasglu ar 13 Hydref). Cafwyd trafodaeth ar bob un o'r ymatebion a awgrymwyd, a nodwyd y sylwadau a'r diwygiadau i'r ymatebion. Gofynnodd Kathleen Carroll am i unrhyw destun ychwanegol gael ei anfon ati erbyn diwedd yr wythnos fel y gallai rannu drafft terfynol (ynghlwm) â Grŵp Tasglu y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr. Byddai Andrew Lucas a Gary Mitchel yn llunio'r ymateb terfynol, ac yn ei anfon cyn y dyddiad cau o 30 Hydref.

## 5. Gardd Gymunedol y Drenewydd

Cafwyd sgwrs ragarweiniol gan Gary Mitchell ar hanes Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol a'r gwaith a wnaed yng Ngardd Gymunedol y Drenewydd. Dilynwyd hyn gan daith o amgylch yr ardd.

Roedd Gardd Gymunedol gyfredol y Drenewydd wedi'i lleoli ar safle tyfu 2.5 erw ger Coleg y Drenewydd. Roedd y tir yn cael ei rentu am swm pitw gan y Coleg.

Cafodd Gardd Gymunedol y Drenewydd ei hadleoli 5 mlynedd yn ôl o'r ystad ddiwydiannol. Llwyddwyd i drosglwyddo coed ffrwythau, gwelyau blodau uchel a thŷ crwn i'r safle newydd. Roedd gan y safle arddangosiad garddwriaethol ac ardaloedd tyfu ar gyfer ymchwil. Roedd ganddo ardaloedd cnydio a oedd yn bwydo i mewn i'r Siop Trin y Tir, yn ogystal â chynllun bocsys llysiau. Roedd ganddo hefyd leiniau rhandir bach, lle gallai pobl ddysgu ac ymarfer sgiliau garddwriaethol. Roedd ei system cynaeafu glaw yn darparu digon o ddŵr ar gyfer y safle cyfan. Roedd system tapiau cau syml yn caniatáu i faddonau a chynwysyddion amrywiol, a oedd wedi'u gwasgaru ledled y safle, gael eu defnyddio fel pwyntiau dyfrio. Roedd iddo fannau cymunedol, gan gynnwys pwll tân, tŷ crwn, barbeciw, lawntiau agored a phwll bywyd gwyllt.

Roedd sied fawr a oedd yno yn gartref i brosiect o'r enw 'Beicio i'r dyfodol'. Roedd beiciau'n cael eu hadnewyddu gan ddefnyddio rhannau a oedd yn gweithio a achubwyd o hen feiciau a roddwyd i'r cynllun. Roedd yno raglen benodol a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc a oedd yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn yr ysgol. Trwy'r rhaglen, roeddent yn magu hyder ac yn dysgu sgiliau gwaith tîm, yn ogystal â sgiliau ymarferol a sgiliau rheoli amser mewn

amgylchedd y tu allan i'r ysgol. Roedd 'Beicio i'r dyfodol' hefyd yn darparu beiciau fforddiadwy i bobl ifanc/deuluoedd.

Roedd byngalo ar y safle a arferai fod yn ganolbwynt i'r gwirfoddolwyr, yn cael ei adnewyddu ar ôl cael ei ddifrodi gan lifogydd. Roedd prosiect a ariennid gan LEADER i ddatblygu mentrau ailgylchu wedi ariannu pum cynhwysydd lorïau. Roedd y rhain wedi cael eu trawsnewid ac yn cael eu defnyddio ar gyfer uwchgylchu a thrwsio dillad, ailgylchu ac ailddefnyddio plastigion ac i ddarparu cegin swyddfa.

## 6. Diweddariadau Tasglu y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr

### Diweddariad ar SOS ar gyfer Gwenyn, Sefydliad y Merched, a ddarparwyd gan Jean Hurrell

Ffederasiwn Ceredigion
Cynhaliodd Ffederasiwn Ceredigion Ddiwrnod yr Amgylchedd yn Aberystwyth ar 30 Mawrth, a oedd yn agored i aelodau a phobl nad oeddent yn aelodau. Roedd y diwrnod yn cynnwys sgwrs ar y perygl o golli gwenyn a draenogod.

Sefydliad y Merched Henllan, Ffederasiwn Dinbych Clwyd
Trefnodd Sefydliad y Merched Henllan Ddiwrnod Agored ddydd Sadwrn 12 Hydref i arddangos Gardd Wenyn Henllan. Rhoddodd Janice Vincett MSc, Entomolegydd, gyflwyniad ar 'Iechyd y Gwenyn yn ein Pentref'.

Agorwyd yr ardd, a grëwyd gan Sefydliad y Merched Henllan, mewn partneriaeth â mudiadau eraill yn y gymuned, bum mlynedd yn ôl. Roedd gwirfoddolwyr ymroddedig wedi bod yn gofalu am yr ardd a'i chynnal a'i chadw, ac roedd wedi cael ei defnyddio gan grwpiau cymunedol lleol dros yr ychydig flynyddoedd blaenorol at ddibenion hamdden ac addysgol.

Cafodd Janice Vincett ei gwahodd gan y Sefydliad y Merched i gynnal arolwg byr o'r ardd wenyn. Roedd Janice wedi ymweld â'r ardd deirgwaith, a chyflwynodd ei chanfyddiadau yn y Diwrnod Agored.

Roedd nifer o ffederasiynau wedi dweud wrth Jean fod aelodau'n parhau i weithredu'n unigol i helpu gwenyn.

### Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, a ddarparwyd gan Samantha Harris

Menter Ymylon Ffyrdd ar gyfer Blodau Gwyllt
Roedd LlC yn parhau i weithredu'n unol â'r Fenter hon, gan reoli rhagor o ymylon ffyrdd mewn modd mwy ffafriol a hau rhywfaint o hadau.

Prosiect – cyn yr Eisteddfod ym mis Awst, crëwyd arddangosfa o flodau gwyllt, a oedd yn frodorol i Lanrwst, ar hyd yr A470 (gan orchuddio oddeutu 3.2 cilomedr o Ffordd Cambria). Ychwanegwyd at amrywiaeth yr ymylon a oedd yn bodoli, a hynny trwy waith plannu atodol, chwistrellu chwyn, a thorri a chasglu. Rhoddwyd

nifer o becynnau o hadau blodau gwyllt hefyd i aelodau'r cyhoedd a ddangosodd ddiddordeb yn y fenter ar stondin NMWTRA yn yr Eisteddfod.

Canllawiau ar Ymylon Ffyrdd – Gweithio gyda Plantlife
Roedd swyddogion trafnidiaeth wedi bod yn gweithio gyda Plantlife, gan gymryd rhan mewn gweithgor ledled y Deyrnas Unedig i roi sylw i wella'r gwaith o gynnal a chadw ymylon ffyrdd. Roedd aelodau eraill y grŵp yn cynnwys Highways England, Transport Scotland, yr Asiantau Cefnffyrdd, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, prif gontractwyr y priffyrdd a rhanddeiliaid eraill. Diben y gweithgor oedd llunio canllawiau arfer gorau cynhwysfawr ar gyfer y rhai a oedd yn rheoli ymylon ffyrdd, er enghraifft awdurdodau lleol ac eraill. Roedd y gwaith hwn bellach wedi dod i ben, a chyhoeddwyd a lansiwyd y canllawiau gan Plantlife ym mis Medi (https://plantlife.love-wildflowers.org.uk/roadvergecampaign/management-guidelines).

Clefyd Coed Ynn
Datblygwyd cynllun strategol ar y cyd gan yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith, Asiantau Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), i asesu a rheoli risgiau ac effeithiau ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Roedd gweithdai rheolaidd yn cael eu cynnal i hwyluso'r gwaith hwn.

Archwiliad o Goridorau Gwyrdd a Ffyrdd Cymru
Roedd archwiliad cychwynnol o Ffordd yr Arfordir wedi cael ei gynnal gan Croeso Cymru a'r Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith. Roedd cwmpas y meini prawf wedi cael ei gynnwys yn yr archwiliad ar gyfer y Coridorau Gwyrdd yn dilyn y themâu o adeiladu lleoedd a gwelliannau i'r dirwedd ar y rhwydwaith presennol, gwella cynefinoedd a gwella cysylltedd (cadernid ecosystemau) a Gweithredu ar Rywogaethau a nodi prosesau cynnal a chadw priodol. Byddai archwiliadau pellach o Ffordd Cambria a Ffordd y Gogledd hefyd yn cael eu cynnal.

Clwydi
Roedd Asiantau Cefnffyrdd wrthi'n plannu bylbiau ychwanegol yn ymyl clwydi.

## 7. Y cyfarfod nesaf

Disgwylid y byddai dyddiad y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill. Gofynnodd Kathleen i'r aelodau a oeddent am i unrhyw bwnc penodol gael ei gynnwys. Awgrymodd Keith y dylid gwahodd Plantlife i roi cyflwyniad ar eu gwaith adfer dolydd yn Nyffryn Conwy.

Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal ymweliad safle yng Ngogledd Cymru (Ffarm Moelyci, Tregarth, Gwynedd) i weld gwaith ymchwil i'r broses o wneud brics glo o doriadau porfa. Er y byddai hynny'n golygu costau teithio ychwanegol i bobl o'r De, teimlwyd y gallai hyn fod o fudd i'r Tasglu. Byddai Kathleen yn cylchredeg arolwg barn *Doodle,* yn cynnwys opsiynau o ran dyddiadau a lleoliadau, ar gyfer cyfarfod mis Ebrill.